# Adolygu penderfyniadau tansgrifennu i dderbyn risgiau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag adolygu penderfyniadau tansgrifennu i dderbyn risg. Bydd eich gwaith yn cynnwys gwirio'r dyfynbrisiau a roddwyd i gwsmeriaid. Mae dyfynbrisiau a ddarparwyd yn cael eu gwirio i sicrhau bod canllawiau'r tansgrifennwr wedi'u cymhwyso'n gywir, nad ydych wedi mynd y tu hwnt i'r awdurdod tansgrifennu, a bod y dyfynbris yn ddilys. Lle bo dyfynbris yn dibynnu ar y cwsmer yn cyflenwi dogfennau neu dystiolaeth arall, mae hynny hefyd yn cael ei wirio, a bydd unrhyw wahaniaethau rhwng y ffeithiau pwysig a gyflenwyd gan y cwsmer ar adeg y dyfynbris a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y dystiolaeth yn cael eu hatgyfeirio at y person sy'n gallu delio gyda nhw.

Bydd y safon hon yn addas i chi os ydych chi'n gweithio i yswiriwr neu ganolwr, neu sefydliad arall sydd ag awdurdod dirprwyedig.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Adolygu dyfynbrisiau sy'n syrthio o fewn eich awdurdod, a throsglwyddo eraill i'r person priodol
2. Cadarnhau bod gennych yr holl ddogfennau a gwybodaeth angenrheidiol i symud ymlaen, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Nodi unrhyw wahaniaethau yn y manylion a gafwyd gan gwsmeriaid a'r ffeithiau pwysig y seiliwyd y dyfynbris arnynt
4. Adnabod dyfynbrisiau sy'n syrthio y tu allan i ganllawiau eich sefydliad, a chymryd camau priodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Cyfeirio unrhyw sefyllfaoedd y tu allan i lefel eich awdurdod at y bobl neu'r adrannau priodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Penderfynu a yw'r canllawiau tansgrifennu wedi'u cymhwyso'n gywir, ac nad ydych wedi mynd y tu hwnt i'r awdurdod tansgrifennu
7. Dilysu dyfynbrisiau sy'n cyflawni'r gofynion, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Cydymffurfio â gofynion cydymffurfio cyfreithiol a rheoliadol, rheoliadau'r diwydiant, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Egwyddorion a rheoliadau yswiriant a chyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
2. Strwythur y farchnad yswiriant a rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol bartïon sy'n rhan ohoni sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
3. Cwmpas y polisi, y telerau a'r amodau sy'n berthnasol i'ch gwaith, gan gynnwys estyniadau neu gyfyngiadau safonol ac ansafonol
4. Ffynonellau cyngor a gwybodaeth
5. Terfynau eich awdurdod a'r camau sy'n ofynnol pan fydd dyfynbris yn syrthio y tu allan i'r terfynau hynny
6. Safonau a gweithdrefnau gwasanaeth cwsmeriaid eich sefydliad, gan gynnwys y rhai ar gyfer delio gyda chwynion
7. Y meini prawf tansgrifennu ar gyfer y dyfynbrisiau mae gennych chi awdurdod i'w hadolygu
8. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer rhoi yswiriant, cyhyd â bod yr amodau'n cael eu derbyn
9. Sut mae cael mynediad i gofnodion cwsmeriaid sydd eisoes yn bodoli
10. Polisi a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cyfathrebu â chwsmeriaid
11. Sut mae penderfynu a yw cynnig yn cydweddu â phroffil arfaethedig eich sefydliad o ran risg dderbyniol
12. Sut mae gwirio bod y premiwm cywir wedi cael ei godi
13. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn gwerthuso materion yn effeithiol ac yn gwneud penderfyniadau priodol
2. Rydych yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac er lles pennaf y cwsmer
3. Rydych yn dangos ymwybyddiaeth o'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynnig
4. Rydych yn mabwysiadu agwedd ymchwilgar i gasglu manylion gofynnol sy'n hanfodol i'ch gwaith
5. Rydych yn arddangos dealltwriaeth o bobl eraill ac yn delio gyda nhw mewn modd proffesiynol
6. Rydych yn datgelu gwybodaeth dim ond i'r rhai sydd ei hangen

Adolygu penderfyniadau tansgrifennu i dderbyn risgiau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPGI25 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Yswiriant Cyffredinol |
| **Geiriau Allweddol** | Hawliad yswiriant; polisi yswiriant; polisïau; hawliad; hawlydd; setliad; wedi'i yswirio; heb ei yswirio; hysbysiad |